
BMJ Learning

# Cychwyn arni
## Canllawiau i'r Wefan

Rhoi'r offer i bobl broffesiynol ym maes iechyd gynyddu eu gwybodaeth a symud ymlaen yn eu gyrfaoedd.




## Cofrestru

**Defnyddiwr tro cyntaf?**

**1.** Os nad oes gennych gyfrif OpenAthens, cofrestrwch gyda'ch cyswllt llyfrgell i gael enw defnyddiwr a chyfrinair OpenAthens.

**2.** Ewch i **learning.bmj.com** a dewiswch 'Sign in' ar ben ochr dde'r sgrin. Bydd hyn yn agor cwymplen, ac o hon dewiswch 'OpenAthens users sign in here'.

**3.** Rhowch eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair OpenAthens a fydd yn mynd â chi i dudalen mewngofnodi BMJ Learning.

**4.** Cofrestrwch ar BMJ Learning. Ar ôl i chi roi eich manylion, pwyswch y botwm 'Register'.

**Defnyddwyr presennol:**
Eisoes wedi cofrestru gyda BMJ Learning?

**1.** Ewch i **learning.bmj.com** a dewiswch 'Sign in' ar ben ochr dde'r sgrin. Bydd hyn yn agor cwymplen, ac o'r fan yma dewiswch 'OpenAthens users sign in here'.

**2.** Rhowch eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair OpenAthens a fydd yn mynd â chi i dudalen fewngofnodi BMJ Learning.

**3.** Mewngofnodwch i BMJ Learning drwy ddefnyddio eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair.


Y tro nesaf y byddwch yn ymweld â BMJ Learning, y cwbl y byddwch angen ei wneud fydd dewis 'Sign in' a rhoi eich enw defnyddiwr a chyfrinair BMJ Learning.

## Cofnodi eich datblygiad proffesiynol parhaus


Dylai modiwlau BMJ Learning gael eu cofnodi yn yr eBortffolio Datblygiad Proffesiynol Parhaus o dan Category 2; 'Clinical Practice; Completing self learning modules', yn unol â fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus QCHP.

## Modiwlau


### Dewis modiwlau i'w cwblhau





**Chwilio -** Gallwch ddefnyddio'r bar chwilio i deipio pynciau neu allweddeiriau sydd o ddiddordeb i chi. Bydd hyn yn dangos rhestr o fodiwlau sy'n berthnasol i'r hyn yr ydych yn chwilio amdano.




**Pori drwy fodiwlau -** Gallwch ddefnyddio'r botwm 'Browse by speciality' i weld yr holl fodiwlau ar y safle, yn ôl trefn yr wyddor neu yn ôl y pwnc. Un ai dewiswch un o'r pynciau ar y chwith i'r blwch pori neu yn ôl y llythrennau sydd ar y brig i weld rhestr o fodiwlau yn y categori a ddewiswyd.




**Dewiswch fodiwlau ar eich tudalen hafan -** Byddwch yn gweld dewis o fodiwlau ar eich tudalen hafan bersonol BMJ Learning. Mae'r rhain wedi'u teilwra ar eich cyfer chi, yn seiliedig ar eich proffesiwn, eich arbenigedd a'ch gwlad.




**Tudalennau cynulleidfa -** Pan fyddwch wedi allgofnodi, byddwch yn gweld dewis o deils lliw gyda gwahanol ddewisiadau proffesiwn. Dewiswch unrhyw rai o'r rhain i weld y cynnwys diweddaraf a mwyaf poblogaidd ar gyfer y proffesiwn penodol hwnnw.

## Gweld gwybodaeth ynghylch y modiwl

Pan fyddwch yn dewis unrhyw fodiwl, byddwch yn cael eich cymryd i dudalen hafan y modiwl hwnnw i'ch helpu i benderfynu a yw'r modiwl hwnnw o ddiddordeb i chi.


**Bydd y dudalen yn dangos**

- Trosolwg o'r modiwl
- Nodau'r dysgu
- Y math o fodiwl yw hwn ac a yw'n cynnwys fideo, sain ayb
- Y gynulleidfa a argymhellir
- Tua faint o amser fydd ei angen i gwblhau'r modiwl
- Awduron / cyfranwyr y modiwl
- Y sefydliadau'n sy'n achredu'r modiwl


GIG CYMRU NHS WALES | Gwasanaeth Gwybodeg Informatics Service

Lyfrgell Iechyd Library for Health

## Cwblhau Modiwlau





O dudalen hafan y modiwl, byddwch yn cael dewis un ai 'Start module' neu 'Add to portfolio'. Gallwch ychwanegu'r modiwl at eich BMJ Portfolio i'w gwblhau'n ddiweddarach. Os byddwch yn dewis cychwyn y modiwl yn awr, bydd yn cael ei ychwanegu at eich BMJ Portfolio yn awtomatig.




Os byddwch yn dewis 'Start Module' ac mae gennych danysgrifiad eisioes neu mae gennych fynediad drwy eich sefydliad neu eich cymdeithas, byddwch yn gallu gweithio drwy'r modiwl (efallai y bydd gofyn i chi fewngofnodi'n gyntaf os nad ydych eisoes wedi llofnodi i mewn). Neu, efallai y byddwch yn cael cynnig prynu tanysgrifiad a fydd yn rhoi mynediad i chi at y catalog llawn gyda channoedd o fodiwlau. Wrth i chi weithio drwy'r modiwl bydd eich cynnydd yn cael ei arbed yn awtomatig.

## Cael eich tystysgrif

Pan fyddwch wedi llwyddo mewn modiwl, gallwch gasglu eich tystystgrif drwy ddewis 'Get Certificate', a gallwch ei hargraffu neu ei lawrlwytho a'i harbed yn eich cofnodion. Cewch ddewis oddi ar restr o sefydliadau achredu pwy yr hoffech ei gael i achredu eich dysgu. Gallwch hefyd gasglu eich tystysgrif rywbryd arall o'ch BMJ Portfolio.




## Mathau o Fodiwlau

### Hanes achos ryngweithiol

Mae'r modiwlau hyn yn cynnwys cyfres o achosion gyda chwestiynau i'ch arwain drwy'r pwnc. Mae prawf rhagarweiniol byr ar y dechrau sy'n cael ei ailddrodd ar y diwedd er mwyn i chi allu gweld faint rydych wedi'i ddysgu.

### Mewn union bryd

Mae'r modiwlau hyn yn rhoi trosolwg trylwyr o'r pwnc ac yn profi eich gwybodaeth ar y diwedd.

### Darllen, meddwl, ymateb

Mae'r modiwlau hyn wedi'u llunio i'ch arwain drwy'r pwnc a rhoi syniadau i chi eu hystyried. Nid oes cwestiynau ar y diwedd.

### Aml ddewis

Mae'r modiwlau hyn yn cynnws cwestiynau aml ddewis, a luniwyd i brofi eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o erthygl yn un o'n cyfnodolion.

### Fideo, animeiddiad a sain

Mae gennym amrywiaeth eang o'r mathau hyn o fodiwlau lle gallwch wylio neu wrando ar arbenigwyr yn trafod pynciau allweddol.

learning.bmj.com/mophqatar

I gael rhagor o help a chymorth, ebostiwch **support@bmj.com** neu ffoniwch **+44 (0)207 111 1105**

## Eich BMJ Portfolio | portfolio.bmj.com

Portffolio ar-lein rhad ac am ddim a hawdd ei ddefnyddio yw BMJ Portfolio. Bydd pob un o'r modiwlau y byddwch yn eu cwblhau'n cael eu hychwanegu at eich BMJ Portfolio'n awtomatig a gallwch ddefnyddio hwn i gadw golwg, cofnodi, cynllunio ac adrodd ar eich datblygiad proffesiynol parhaus.

Pan fyddwch wedi mewngofnodi i BMJ Learning, bydd eich tudalen hafan bersonol yn dangos detholiad o'ch portffolio, gyda'ch pum eitem fwyaf diweddar.

